Arlunydd Lili'r Dyfroedd

(gwerthfawrogi prydferthwch / pawb â'i rôl)

"Wyt ti'n gwrando?" gofynnodd yr athro i Claude Monet y bachgen bach direidus yn y dosbarth. "Beth wyt ti'n ei wneud?" Brasgamodd yr athro tuag at ddesg Claude. Dyna lle roedd wedi gwneud llun digri o'r athro. Gwylltiodd yr athro. Cipiodd y llun oddi arno a'i roi yn y fasged. Gofynnodd iddo, "Beth wyt ti am ei wneud ar ôl tyfu i fyny, 'machgen i? Oes gen ti ddiddordeb mewn unrhyw beth?" "Oes," atebodd Claude. "Mae gen i ddiddordeb mawr mewn llongau, llongwyr a bywyd y môr. Mae gen i ddiddordeb hefyd mewn llynnoedd, afonydd a phyllau dŵr."

Pan symudodd Claude a'i deulu o Baris i Le Havre roedd wrth ei fodd. Bob dydd, yn ystod y gwyliau, byddai Claude yn y porthladd yn gwylio'r llongau'n dadlwytho eu cargo. Wedyn byddai'n rhedeg i siop groser ei dad ac yno byddai'n sgwrsio â'r llongwyr.

Weithiau, pan fyddai'r siop yn llawn o bobl, byddai'n eistedd yn y gornel yn gwneud lluniau o'r llongwyr. Dro arall byddai'n eistedd ar ei gwrcwd yn y porthladd yn gwneud lluniau o'r llongau yn dod i mewn. Roedd wrth ei fodd yn gwneud lluniau gwirion o bobl – y llongwyr, y bobl oedd yn byw yn ei ardal a hyd yn oed ei athro yn yr ysgol.

Daeth pobl i sylweddoli fod gan Claude ddawn arbennig i dynnu lluniau. Byddai pobl yn talu iddo wneud lluniau digri o'u ffrindiau neu eu gelynion. Ar ôl iddo dreulio cyfnod yn yr ysgol arlunio penderfynodd ei fod, ar ôl gwrando ar yr arlunydd enwog Eugene Boudin, am fynd allan i'r byd mawr i beintio.

Byddai'n peintio darluniau o frwydrau enwog neu ddigwyddiadau hanesyddol. Byddai ef a'i ffrindiau yn peintio pethau cyffredin fel cwch ar y llyn, neu greigiau neu hyd yn oed fydylau o wair yn y cae. Penderfynodd un newyddiadurwr roi enw ar y math yma o arlunwyr, sef yr argraffiadwyr. Cafodd yr enw o un o luniau Monet sef 'Codiad yr haul.' Doedd pawb ddim yn hoffi'r darluniau hyn ond credai Monet ei bod yn bwysig gwneud lluniau o bethau bob dydd bywyd gan ddangos y gwahanol liwiau, y cysgodion a sut yr ymddangosai'r golau ar wahanol wrthrychau. Roedd hyd yn oed yn gallu dangos y stêm a'r tanwydd oedd yn dod o injan stêm! Wrth edrych ar rai o'i luniau yn agos maen nhw'n

ymddangos fel petai'r paent yn rhedeg i'w gilydd ond, o edrych arnyn nhw o bell, mae'r llun yn dod yn fyw.

Weithiau byddai'n peintio yr un olygfa ar wahanol amseroedd o'r dydd a hefyd yn y gwahanol dymhorau er mwyn cael gweld sut roedd goleuni'r haul yn newid y lliwiau a'r cysgodion. O dipyn i beth roedd pobl yn dechrau gwerthfawrogi darluniau Monet. Penderfynodd fynd i fyw i dref Giverny yn Ffrainc. Yno treuliodd y deng mlynedd olaf o'i fywyd yn peintio darluniau o'i ardd a'r pwll dŵr a'r lili ar wyneb y dŵr. Roedd yn hoff iawn o fyd natur. Ei nod wrth ddarlunio oedd peintio pethau yn ôl fel yr oedd ar y pryd – yn union fel mae camera yn tynnu llun. Roedd hyd yn oed yn gallu peintio niwl a glaw a'u gwneud yn gwbl fyw.

Nod Monet oedd cael arddangos ei ddarluniau yn y Salon ym Mharis. Byddai pobl ledled y byd yn tyrru i'r Salon oherwydd yn yr oriel hon y byddai arlunwyr mawr y byd yn arddangos eu gwaith. Doedd hi ddim yn hawdd arddangos darlun yn y Salon. Byddai Monet yn mynd â'i ddarluniau yno. Byddai ambell un yn cael ei dderbyn ond yn aml byddai llawer ohonyn nhw'yn cael eu gwrthod. Cafodd y darlun enwog 'Y gwragedd yn yr Ardd' ei wrthod. Un o'r gwragedd yn y darlun hwn oedd Camille a ddaeth yn ei thro yn wraig i Monet.

Adnod: "Mor brydferth yw dy bebyll, O Jacob, a'th wersylloedd, O Israel!" Numeri 24:5

Gweddi: O Dduw, wnei di fy helpu i ddal ati hyd yn oed pan fydd pethau yn mynd yn groes. Amen.

Trafod:

- Pa fath o ddarluniau rydych chi'n eu hoffi? Pam?
- Beth fuasech chi'n ei ddweud yw hynodrwydd yr Argraffiadwyr?